Cynllunio Blynyddoedd 1 a 2 Years 1 and 2 Rhiannon Pwyll Myrddin	Wythnos 6 a 7 Thema - “Ein byd, ein cyfrifoldeb?” Theme - “Our world, our responsibility?” Neges – diolch i chi i gyd am aros adref a chadw’n saff! Message – thankyou all for staying home and keeping safe! Rydym wrth ein bodd yn gweld eich gwaith ar HWB. We thoroughly enjoy seeing your hard work on HWB. **Sut i fewngofnodi?** Ewch i dudalen Hwb > Mewngofnodwch gydag eich manylion ysgol > Ewch i'r dewislen a dewiswch ‘Just2easy’ > Dewiswch ‘Jit’ > Dewiswch opsiwn o ran uchaf ochr dde’r sgrin > Cofiwch arbed eich gwaith. **How to login?** Search Hwb > Enter login details > Go to ‘Menu’ and select ‘Just2easy’ > select ‘Jit’ > Select an option from the top, right of the screen > Remember to save the work completed.
Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu **Cymraeg** **Dosbarthiadau Pwyll a Rhiannon**	**Gweithgaredd 1 / Activity 1** Ysgrifennwch rhestr o’r hyn rydych yn gwneud i oflau am ein byd. Write a list of what you do to care for our world. • Rydw i yn ailgylchu yn wythnosol / I recylce weekly. • Dydw i ddim yn gadael gwastraff ar ôl cael picnic / I don’t leave rubbish after having a picnic. **Gweithgaredd 2 / Activity 2** Dysgwch y geiriau i gân ailgylchu Cyw. Fedrwch chi greu rhestr o bethau gallwn ailgylchu a rhestr arall o bethau ni allwn ailgylchu? Listen to and attempt to learn the words of the following song. Can you create a list of items we can recycle and another list for items we cannot recycle? https://m.youtube.com/watch?v=gScDZD2WFrI Cofiwch pe baech eisiau clywed stori yn cael ei ddarllen chwiliwch am ‘Amser Stori Atebol’ ar lein Remember if you’d like to hear a story being read then search ‘Amser Stori Atebol’ online
Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu **English** **Dosbarth Myrddin**	**Gweithgaredd 1 / Activity 1 -** Our world, our responsibility? Watch the ‘Save energy’ cartoon. https://www.youtube.com/watch?v=1-g73ty9v04 How can you save energy? Create a poster to persuade people to save energy. Remember to include a title, pictures, words and make it colourful. **Gweithgaredd 2 / Activity 2** 1.Be a Nature Detective! Can you name the trees in your garden or in your local area? Use the leaf identification sheet to name the trees.

2.Can you write a list of what trees you have seen?

Remember to keep reading!
Go to https://www.booktrust.org.uk/books-and-reading/have-some-fun/storybooks-and-games/ for some new reading material.

3.Cymraeg
Listen to and attempt to learn the words of the following song. Can you create a list of items we can recycle and another list for items we cannot recycle?
https://m.youtube.com/watch?v=gScDZD2WFrI

Mathemateg a Rhifedd

Gweithgaredd 1 / Activity 1

Ymarfer darllen yr amser (hyd at bob chwarter awr). Gallwch wneud hyn gan ddefnyddio plât papur i greu cloc eich hun. Cofiwch yn y Gymraeg mai 'bysedd / bys' sydd ar gloc ac nid 'dwylo / llaw.' Dyma'r drefn sydd angen i chi ddilyn; (O'r gloch, hanner awr wedi, chwarter wedi, chwarter i)

Practise telling the time (to every quarter of an hour). You could use a paper plate to create your own clock. Remember when completing this task in Welsh (Dosbarth Rhiannon and Dosbarth Pwyll) a clock has 'bysedd / bys' not 'dwylo / llaw' (hands). Complete the task in the following order; (O'clock, half past, quarter past, quarter to).

Gweithgaredd 2 / Activity 2
Ysgrifennwch restr siopa ar gyfer eich taith wythnosol i'r siop ac adiwch faint o eitemau sydd ar y rhestr.
Write a shopping list for the weekly shop and add up how many items are on the list ..

Ydych chi'n medru cyfrifo'r gost?
Can you add up the cost of some items?
This game could help you practise making amounts of money.
https://natwest.mymoneysense.com/students/students-5-8/coin-cruncher/

Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Gweithgaredd 1 / Activity 1
http://www.cansing.org.uk/caneuon/can.php?id=76
Cliciwch ar TRAC LLAWN ar y wefan
Click on TRAC LLAWN for the Welsh language song on the webiste



Mae yna gân ar CanSing am blannu hadau, gwrandewch ar y gân. Beth am blannu hadau, ewch allan i'r ardd neu am dro ac edrychwch ar yr holl blanhigion sydd o'n cwmpas. Gallwch fesur eich planhigion wrth iddynt dyfu neu cymryd lluniau'n wythnosol o'u tyfiant.
There's a song on the CanSing website about planting seeds, listen to the song. What about planting seeds, go out in the garden or for a walk and look at all the plants around us. You could measure your plant as it grows or take photohraphs weekly to document their growth.

Hadau

Mae hadau bach mewn pecyn,
Mae hadau bach mewn pecyn,
Mae hadau bach mewn pecyn,
I'w cael yn siop y dre.

Rhaid plannu'r hadau bychain,
Rhaid plannu'r hadau bychain,
Rhaid plannu'r hadau bychain,
Mewn potiau'n llawn o bridd.

Mae angen gwres a golau,
Mae angen gwres a golau,
Mae angen gwres a golau,
I'r hadau dyfu'n gryf.

Mae angen dŵr i'r hadau,
Mae angen dŵr i'r hadau,
Mae angen dŵr i'r hadau,
I dyfu'n gryf ac iach.



Gweithgaredd 2 / Activity 2
Wyddoch chi sut mae hadau yn medru cael eu gwasgaru yn naturiol?
Mae yna daflen o weithgareddau gan Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n cynnwys llawer o syniadau amrywiol
https://cdn.naturalresources.wales/media/686794/gweithgareddau-a-gemau-gwasgaru-hadau.pdf (fersiwn Cymraeg)

Do you know how seeds disperse naturally?
There's a document full of ideas by Natural Resources Wales, it shows some fantastic activities.
https://cdn.naturalresources.wales/media/686793/activities-and-games-seed-dispersal.pdf (English Version)

Iechyd a Lles

Gweithgaredd 1 / Activity 1
Ewch am dro gyda'ch teulu o amgylch eich ardal leol. Treuliwch amser i werthfawrogi'r hyn sydd o'ch amgylch a sut mae eich ardal wedi newid yn ystod yr wythnosau diwethaf. Beth fedrwch chi glywed a gweld? Ydy dail y coed yn hollol wyrdd erbyn hyn ac a oes anifeiliaid bach i weld o amgylch y lle? Mae'n ddechrau mis Mehefin erbyn hyn, felly pa dymor ydy hi bellach? (Gwanwyn, Haf, Hydref, Gaeaf). Fedrwch chi greu llun o'r hyn welsoch yn ystod y gweithgaredd?

Take a walk with your family around your local area. Take time to appreciate what is around you and how your area has changed in recent weeks. What can you hear and see? Have the trees changed and are there any newborn animals in the surrounding area. It's now early June, so what season is it? (Spring, Summer, Autumn, Winter). Draw a picture of what you saw during the activity.

Gweithgaredd 2 / Activity 2

Ymarfer eich sgiliau rheoli a thrafod pêl. Pa bêl neu beli rydych am ddewis? Beth am bêl droed, pêl rygbi, neu bêl criced?

Practise your ball control and handling skills. Which ball or balls will you choose? What about a football, rugby ball, or cricket ball?



Celfyddydau Mynegiannol

Gweithgaredd 1 / Activity 1

Creu addurn neu rhywbeth i ddal y gwynt gan ddefnyddio cymaint o adnoddau naturiol a phosib i arddangos yn eich ardaloedd allanol.

Create a decoration or a Wind Chime using natural materials to display in your outdoor areas.

Gweithgaredd 2 / Activity 2

Ymarfer canu cân 'Misoedd y flwyddyn.'

Practise singing the song 'Months of the year.'

Dosbarth Rhiannon a Dosbarth Pwyll:
Ionawr, Chwefror, Mawrth ac Ebrill, Mai, Mehefin a Gorffennaf, Awst a Medi, Hydref, Tachwedd, Rhagfyr, deuddeg mis

Dosbarth Myrddin:
Click on the link below and practise singing the song
https://m.youtube.com/watch?v=-d3jkbP1xc8

Gweithgaredd 3 / Activity 3

Ewch ati i ddilyn y cyfarwyddiadau er mwyn creu llun o'r byd. Cliciwch ar y linc isod.
Cofiwch rhannu llun o'ch gwaith celf ar Hwb.

https://www.youtube.com/watch?v=OTQ_RLo_NXw

Click on the link to follow instructions to create a picture of the world based on our theme 'Our World, Our Responsibility?'
Remember to share a picture of your work on Hwb.

Dyniaethau

Gweithgaredd 1 / Activity 1

Gwrandewch ar y clip fideo am yr hyn mae Cristnogion yn credu sut greodd Duw'r Byd. Ydych chi wedi clywed hyn o'r blaen?
Listen to the following Youtube video clip that discusses the Christian belief of how the world was created by God. Were you aware of this belief?

DOSBARTH RHIANNON A DOSBARTH PWYLL:
https://www.youtube.com/watch?v=GEIwDaLTYGc Listen to the following Youtube video clip that discusses the Christian belief of how the world was created by God. Were you aware of this belief?
DOSBARTH MYRDDIN:
https://www.youtube.com/watch?v=teu7BCZTgDs

Gweithgaredd 2 / Activity 2
Ydych chi wedi clywed sôn am Alex ac Andrew o 4Ocean? Does dim llawer wedi, ond ar daith i ynysoedd y Phi Phi yn Wlad Thai cefais gyfle i weld y cwmni ar waith. Maent wedi dechrau cwmni sy'n teithio'r byd yn casglu plastig o draethau a'r môr. Pe baech yn mynd ar daith o fewn gofynion y Llywodraeth meddyliwch am bigo darn o blastig i fyny.

A fedrwch greu siart tali sy'n dangos yn ddyddiol sawl peth plastig yr ydych yn eu defnyddio – gwelltyn, cwpan, pecyn, gorchydd loli....
Sylwch ar ba mor aml yr ydym yn defnyddio plastig?

Have you heard of Alex and Andrew from 4Ocean? Not many have, but I was lucky to see the company at work on the Phi Phi Islands in Thailand. They have started a comany that travels the world collecting plastic from the beaches and the sea. If you go for a walk within the Gvernment guidlines think about picking up some disgarded plastig.

Can you create a tally chart which shows how many plastic items we use – straws, cups, packaging, coverings for lollies.....
Have you noticed how heavily we rely on plastic?